OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 3275

## Gorchymyn Sir Fynwy (Newidiadau Etholiadaol) 2002

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sir Fynwy (Newidiadau Etholiadaol) 2002

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym:

(a) at ddibenion achosion sy'n arwain at unrhyw etholiad neu'n ymwneud ag unrhyw etholiad, sydd i'w gynnal ar 6 Mai 2004, ar 9 Hydref 2003; ac

(b) at bob diben arall, ar 6 Mai 2004.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "adran etholiadol" ("*electoral division*") yw un o adrannau etholiadol Sir Fynwy fel y'i sefydlwyd gan Orchymyn Trefniadau Etholiadol Sir Fynwy1994(**1**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972;

ystyr "map" ("*map*") yw'r map a farciwyd "map Gorchymyn Sir Fynwy (Newidadau Etholiadol) 2002" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau Newidadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**2**).

### Adrannau Etholiadol

**2.**—(1) Mae adrannau etholiadol presennol Sir Fynwy a bennir yn yr Atodlen i Orchymyn Trefniadau Etholiadol Sir Fynwy 1994 wedi'u diddymu.

(2) At ddibenion ethol cynghorwyr ar gyfer Sir Fynwy, rhennir y Sir honno yn 42 o adrannau etholiadol yn dwyn yr enwau a bennir yng ngholofn (1) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn, a bydd pob adran etholiadol o'r fath yn ffurfio'r ardal a bennir yng ngholofn (2) o'r Atodlen honno, fel y'i dynodir ar y map ac fel y'i diffinnir â llinellau coch.

(3) Y nifer a bennir mewn perthynas â'r adran yng ngholofn (3) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn fydd y nifer o gynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer pob adran etholiadol o'r fath.

### Y Gofrestr o Etholwyr Llywodraeth Leol

**3.** Rhaid i'r swyddog cofrestru wneud unrhyw ad-drefniadau neu addasiadau i'r gofrestr o etholwyr llywodraeth leol sy'n angenrheidiol am fod y Gorchymyn hwn yn dod i rym.

(**1**) Cafodd y Gorchymyn hwn ei wneud ar 19 Rhagfyr 1994 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref.
(**2**) O.S. 1976/246, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol (Diwygio) 1978 (O.S. 1978/247).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*E. Hart*
Y Gweinidog dros Lywodraeth Leol, Cyllid a Chymunedau

6 Rhagyfr 2002